PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 7 Medi, 2021

YN BRESENNOL: Mrs Annwen Morgan (Prif Weithredwr) (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol)
Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid)
Barbara Jones (Cymdeithas Gofalwyr Maeth Ynys Môn)
Liz Fletcher (Dirprwy Gyfarwyddwr Ardal y Gorllewin – Plant, BIPBC)
Rhys Hughes (Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc)
Ned Michael (Pennaeth Gwasanaethau Tai)
Llyr Bryn Roberts (Rheolwr Gwasanaeth – Ymyrraeth Ddwys)
Huw Owen (Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol)
Dawn Owen (Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol)
Nia Hardaker (Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol)
Gwyneth Hughes (Uwch Reolwr Llesiant)
Heulwen Owen (Swyddog Cyswllt Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal)
Saul Ainsworth (Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro - Diogelu)
Sioned Warren (Voices from Care Cymru)
Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor)

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Margaret M. Roberts, Mr Fôn Roberts (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol), Ffion Roberts (Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal), Melanie Jones (Rheolwr Integredig – Gwasanaethau Plant)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac yn dilyn hynny cyflwynodd pawb eu hunain.

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2021 a chadarnhawyd eu bod yn gywir yn amodol ar nodi fod Nia Hardaker, Swyddog Adolygu Annibynnol, yn bresennol yn y cyfarfod.

Materion yn codi o'r cofnodion –

Amlygodd y Cadeirydd y materion gweithredu y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod ar 8 Mehefin 2021, ac roedd rhai ohonynt yn gofyn am gyflwyno gwybodaeth ategol i gyfarfod y Panel ym mis Rhagfyr 2021 mewn perthynas â gweithgareddau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a lleoliadau all-sirol. Cyfeiriodd yn benodol at gamau arfaethedig yn ymwneud ag adolygu ffurflen a chynnwys y Cynllun Llwybr Ymadawyr Gofal yn unol ag argymhellion y Swyddogion Adolygu Annibynnol a gofynnodd am gadarnhad y byddai'r adolygiad wedi'i gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2021. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro (Diogelu) bod y Gwasanaeth yn gweithio yn unol â'r amserlen hon.

DRAFT

3 VOICES FROM CARE CYMRU

Rhoddodd Sioned Warren, Swyddog Llesiant Voices From Care Cymru, ddiweddariad i'r Panel ar brosiect cyfranogi VfC gyda Chyngor Sir Ynys Môn a oedd yn golygu sefydlu grŵp cyfranogi misol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, er mwyn cynorthwyo i gyd-gynhyrchu Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal ac Ymadawyr Gofal Ynys Môn.

Dywedodd Ms Warren wrth y Panel fod llawer o waith wedi cael ei wneud i geisio annog plant a phobl ifanc yng ngofal yr Awdurdod i ymuno â'r grŵp cyfranogi er mwyn rhoi mwy o gyfle iddynt fynegi eu barn am y cynlluniau a'r polisïau sy'n cael effaith uniongyrchol arnynt. Er bod y gwaith yn heriol, yn enwedig gyda dyfodiad y pandemig Coronafeirws, trefnodd Voices from Care Cymru ddigwyddiad rhithwir i ysgogi diddordeb ac yn dilyn hynny mae cyfarfodydd misol yn cael eu cynnal yn rheolaidd erbyn hyn. Ar hyn o bryd, canolbwyntir ar gynyddu niferoedd y grŵp cyfranogi, ac i'r perwyl hwnnw mae aelodau'r grŵp wedi cael y syniad o gynnal cystadleuaeth dylunio poster a fyddai'n hyrwyddo'r grŵp ac yn darparu gwybodaeth am ei nodau ac amcanion. Er bod y briff ar gyfer y dasg hon wedi'i gwblhau, y cam nesaf yw cytuno ar fecanwaith ar gyfer cyfleu'r neges i bobl ifanc ac ennyn eu diddordeb mewn ymuno â'r grŵp. Daeth i'r amlwg hefyd y byddai'r grŵp yn hoffi dysgu mwy am y Panel Rhiant Corfforaethol ac efallai cynnal digwyddiad a fyddai'n dod â'r grŵp a'r Panel ynghyd mewn ffordd anffurfiol. Mae Voices from Care Cymru hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o gynnal diwrnodau o hwyl i berswadio plant a phobl ifanc mewn gofal i ymuno â'r grŵp, a thrwy hynny ymwneud â'r gwasanaethau sy'n effeithio arnynt, ac mae'r sefydliad yn agored i awgrymiadau ynglŷn â sut y gellir cyflawni hyn. Er bod y cyfarfodydd misol yn cael eu cynnal yn rhithwir ar hyn o bryd, y nod yw cynnal y cyfarfodydd wyneb yn wyneb pan fydd hynny'n bosib ond gan ddarparu cyfleuster i alluogi'r rhai hynny sy'n ei chael yn anodd teithio i gyfranogi o bell.

Diolchodd y Panel i Ms Warren am y diweddariad a oedd yn cael ei werthfawrogi. Codwyd y pwyntiau a ganlyn yn ystod y drafodaeth a ddilynodd –

- Yr heriau ynghlwm â chael plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal i gyfranogi ac a ydynt yn gyffredin. Cyfeiriwyd at ddigwyddiad a gynhaliwyd cyn y pandemig, yn ystod haf 2019, lle'r oedd gofalwyr maeth a phlant a phobl ifanc yng ngofal yr Awdurdod yn bresennol. Roedd Voices from Care Cymru wedi dod i gysylltiad uniongyrchol â'r plant a'r bobl ifanc y mae'r sefydliad yn dymuno ymgysylltu â nhw trwy'r digwyddiad hwn. Ar ôl cael profiad o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb a rhithwir, gofynnodd y Panel a yw'r heriau a wynebir yn awr yn ganlyniad i'r amgylchiadau a grëwyd gan y pandemig, neu a ydynt yn arwydd o ddiffyg diddordeb, neu ddiddordeb mewn gweithgareddau eraill, ymysg y bobl ifanc. Eglurodd Ms Warren ei bod yn cael yr argraff bod y bobl ifanc, unwaith y maent wedi ymuno, yn mwynhau cymryd rhan, ond eu cael nhw i ymuno sy'n anodd yn Ynys Môn ac mewn ardaloedd eraill lle mae VfC yn cynnal grwpiau cyfranogi, er enghraifft ym Merthyr a Chaerfyrddin, a dyna pam y mae VfC yn edrych ar wahanol ddulliau o ymgysylltu.
- A yw oed yn ffactor sy'n dylanwadu o ran cyfranogi. Awgrymodd Barbara Jones, o'r Gymdeithas Gofalwyr Maeth, bod plant ifanc yn annhebygol o ymgysylltu â'r hyn y mae VfC yn ceisio'n wneud gan fod diddordeb plant hŷn yn tueddu i gael ei ysgogi os yw'n cynnwys elfen o hwyl neu os yw'n ffordd o ddysgu sgiliau newydd. Eglurodd Ms Warren bod VfC yn gweithio gyda'r ystod oedran 13 i 22 a bod plentyn hŷn sy'n aelod o grŵp cyfranogi Ynys Môn yn rhoi help llaw ymarferol i drefnu cyfarfodydd a'i fod yn dysgu sgiliau newydd yn sgil hynny. Mae VfC yn cynnal grwpiau eraill heblaw am grwpiau cyfranogi, er enghraifft grŵp sgiliau byw'n annibynnol.
- Byddai'n ddefnyddiol pe byddai VfC yn sefydlu cyswllt â'r Gwasanaeth Dysgu. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y byddai'r Gwasanaeth

DRAFT

Dysgu'n hapus i hyrwyddo gwaith VfC yn yr ysgolion ac yn y fforymau strategol addysg.

- Er i'r Panel nodi y byddai'n dymuno cyfarfod â'r grŵp cyfranogi ar ôl iddo wreiddio a magu hyder, cydnabuwyd y byddai'n heriol sefydlu cysylltiad ymarferol ac ystyrlon rhwng y Panel a'r grŵp. I'r perwyl hwnnw, awgrymodd y Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro (Diogelu) y dylid gwneud Sioned Warren yn aelod sefydlog o'r Panel Rhiant Corfforaethol, fel cyfrwng rhwng y Panel a'r grŵp cyfranogi ac i ddarparu adborth i'r naill a'r llall, ac y dylid hefyd ystyried cynhyrchu newyddlen addas i blant yn dilyn pob cyfarfod i'r Panel Rhiant Corfforaethol i roi blas i'r grŵp cyfranogi o'r math o bynciau y mae'r Panel yn eu hystyried. Ar ôl cynnal trafodaeth bellach, cytunwyd y byddai newyddlen ddwywaith y flwyddyn yn ffordd well o gyflawni'r amcan o ennyn diddordeb y grŵp cyfranogi, yn ogystal â sicrhau cynnwys digonol heb orlwytho'r grŵp gyda gwybodaeth am faterion nad ydynt efallai o ddiddordeb iddynt.

Cytunwyd –

- **Gofyn am ddiweddariad yng nghyfarfod y Panel ym mis Rhagfyr ynghylch cynnydd y grŵp cyfranogi, ac yn benodol mewn perthynas â chynyddu ei aelodaeth.**
- **Cadarnhau parodrwydd y Panel Rhiant Corfforaethol i gyfarfod â'r grŵp cyfranogi pan fydd hi'n briodol ac ar delerau y bydd y grŵp yn gyfforddus â nhw.**
- **Argymell bod Voices from Care Cymru, trwy Sioned Warren, yn cysylltu â'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc a/neu'r Uwch Reolwr Llesiant i sefydlu cyswllt ag ysgolion Ynys Môn.**
- **Cadarnhau Sioned Warren, Voices from Care Cymru, fel aelod sefydlog o'r Panel Rhiant Corfforaethol.**
- **Bod newyddlen yn cael ei chynhyrchu ddwywaith y flwyddyn i gofnodi materion o ddiddordeb o gyfarfodydd y Panel er budd y grŵp cyfranogi. Sioned Warren, Voices from Care Cymru, a Saul Ainsworth (Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro – Diogelu) i gydweithio i ddrafftio'r newyddlen.**

4 ADRODDIAD Y SWYDDOGION ADOLYGU ANNIBYNNOL

Cyflwynwyd, i'r Panel ei ystyried, adroddiad y Swyddogion Adolygu Annibynnol, fel rhan o'u dyletswydd i fonitro gweithgarwch yr awdurdod lleol wrth weithredu fel rhiant corfforaethol da o dan Rhan 6 Côd Ymarfer Llywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiad yn cofnodi cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol i'r Panel Rhiant Corfforaethol ym mis Mawrth 2018.

Cyflwynodd Mr Huw Owen, Swyddog Adolygu Annibynnol, yr adroddiad a thynnodd sylw at y pwyntiau a ganlyn –

- Ansawdd asesiadau plant sy'n derbyn gofal – dangosodd y sampl o 20 o achosion y bu i'r Swyddogion Adolygu Annibynnol edrych arnynt nad oedd gan 11 o blant asesiad cyfredol (h.y. a gynhaliwyd yn 2020 neu 2021). Nid oedd rhai o'r asesiadau'n gyfredol o ran adlewyrchu'r newidiadau sylweddol yr oedd rhai o'r plant wedi'u profi ers cwblhau eu hasesiad. Er bod y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn croesawu ymrwymiad polisi'r Gwasanaeth i ddarparu asesiad cyfredol ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal, mae angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn yn llawn.
- Cynlluniau Gofal a Chymorth sydd ar waith – Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn nodi bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn y maes hwn o gymharu ag adroddiadau blaenorol a gyflwynwyd i'r Panel. Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Mehefin 2020 a 23 Gorffennaf 2021, derbyniwyd adroddiadau cryno mewn 47 o Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal (91%). Y ganran gyfatebol yn adroddiad blaenorol y Swyddogion Adolygu

Annibynnol oedd 91% a 97% am y ddau gyfnod gwahanol y casglwyd data yn ei gylch. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol o'r farn y bu cymorth gan Swyddog Cymorth Busnes dynodedig yn amhrisiadwy o ran cyflawni'r gwelliant hwn.

- Adolygu a monitro trylwyr o'r gweithgareddau a'r gwahaniaeth a wnaed - mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn croesawu ymrwymiad y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd i adolygu templed y Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 yn y gobaith y bydd yn arwain at ffurflen lai ailadroddus sy'n canolbwyntio mwy ar y plentyn. Mae'r nifer uchel o adroddiadau cryno a gyflwynwyd cyn cynnal adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal yn cynorthwyo Gweithwyr Cymdeithasol a Swyddogion Adolygu Annibynnol, fel ei gilydd, gyda'r gwaith paratoi.
- Ansawdd a chysondeb cadw cofnodion – Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn parhau o'r farn bod cadw cofnodion achos wedi bod yn gyson dda ers peth amser.
- Ffocws penodol ar Gynllunio Sefydlogrwydd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal – Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn croesawu ymrwymiad y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd i adolygu ei bolisi ar Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig ac maent o'r farn bod y gwasanaeth wedi bod yn rhagweithiol ym mhob achos perthnasol lle gellid ystyried Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn parhau i fynychu cyfarfodydd Cynllunio Gofal Sefydlog a theimlir bod hynny'n arwain at rannu gwybodaeth mewn modd amserol a sicrhau nad yw achosion yn llithro.
- Mae'r broses Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal wedi parhau i ddefnyddio cyfryngau rhithwir amrywiol ac er bod hyn wedi golygu bod cyswllt gyda phlant ac oedolion allweddol wedi gallu parhau, mae yna anfantais enfawr yn bodoli hefyd o beidio â chael sgwrs wyneb yn wyneb â phlant. Cynhaliwyd cyfanswm o 120 o Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal rhwng 1 Ebrill a 23 Gorffennaf 2021 ac roedd 118 (98%) ohonynt o fewn yr amserlenni statudol.
- Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol wedi ymrwymo i ddatblygu eu dulliau i sicrhau bod y broses adolygu yn canolbwyntio ar y plentyn. Mae'r adroddiad yn ymhelaethu ar yr hyn sydd ynghlwm â datblygu dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn a'r cynnydd a wnaed hyd yma. Byddai'r Rheolwr Gwasanaeth yn fodlon mynychu cyfarfod o'r Panel i rannu'r gwaith a gwblhawyd i gryfhau'r gwasanaeth Swyddogion Adolygu Annibynnol ac i gael ei herio ar y gwaith hwnnw.
- Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn parhau i gael eu gwahodd i gyfarfodydd chwarterol sy'n adeiladol ac yn fodd o gydweithio er mwyn gwella ymarfer. Rhydd yr adroddiad drosolwg o'r materion a drafodwyd yn y cyfarfod diweddaraf ym mis Ebrill 2021 gan gynnwys y gofyniad i bob Plentyn sy'n Derbyn Gofal gael Gwaith Taith Bywyd; ystyriaethau ynghylch cyswllt a'r angen i gyswllt fod yn seiliedig ar ganlyniad asesiad risg ym mhob achos; darparu dogfennau, a Diwygio Cyfraith Gyhoeddus.
- Cysondeb mewn Gweithwyr Cymdeithasol a throsiant staff. Mae'r adroddiad yn nodi'r materion sy'n codi yn dilyn craffu ar achosion lle bu newid yn y Gweithiwr Cymdeithasol ers yr adolygiad statudol diwethaf. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn croesawu'r ymrwymiad a wnaed gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd, sef pan fo Gweithiwr Cymdeithasol y plentyn yn newid, fod yr achos yn parhau i gael ei roi i'r un grŵp ymarfer; ac yn yr un modd, dylai'r un Arweinydd Ymarfer barhau i oruchwylio'r gwaith.
- Ei bod yn gadarnhaol iawn nodi, o sampl ar hap o 30 achos, cynhaliwyd ymweliadau statudol Plant sy'n Derbyn Gofal o fewn yr amserlen ym mhob un o'r 30 (100%).
- Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol o'r farn bod y prif faterion sy'n codi o'r adroddiad yn ymwneud â'r gwelliant o ran nifer yr adroddiadau a gyflwynwyd cyn yr Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal; mae angen i ymdrechion i sicrhau fod gan bob plentyn sy'n derbyn gofal asesiad cyfredol barhau a bod y Panel yn gwahodd y Rheolwr Gwasanaeth i gyfarfod o'r Panel i gyflwyno'r Cynllun Datblygu Swyddogion Adolygu Annibynnol.

DRAFT

Wrth ymateb i'r adroddiad gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol ar ran y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd, croesawodd y Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro – Diogelu yr adroddiad fel arfarniad cadarnhaol o'r gwaith yn gyffredinol. Cadarnhaodd y lluniwyd polisi drafft yn seiliedig ar ddull "dim niwed" i gefnogi ceisiadau am orchmynion gwarcheidiaeth arbennig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac y bydd y Tîm Rheoli Plant yn ei ystyried yn ddiweddarach yn y mis. Yn ogystal, bydd ffocws o'r newydd ar sicrhau fod gan pob plentyn sy'n derbyn gofal asesiad cyfredol o'u hanghenion. Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru wedi penodi gweithiwr cymdeithasol Taith Bywyd i gynorthwyo awdurdodau ar draws Gogledd Cymru gyda phrydlondeb ac ansawdd y gwaith Taith Bywyd. Roedd y Rheolwr Gwasanaeth yn cydnabod fod trefniadau cyswllt ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn arbennig o heriol i'r Gwasanaeth yn ystod dau gyfnod clo'r pandemig. Er i'r Gwasanaeth roi anghenion y plentyn wrth galon penderfyniadau, yn aml roedd yn wynebu tensiynau cystadleuol yng nghyd-destun ei ddyletswydd o ofal tuag at iechyd rhieni, gofalwyr maeth a staff. Dysgwyd gwersi ar hyd y daith a gweithiodd staff yn ddiwyd ac yn stoicaidd i gyflawni'r trefniadau gorau ar gyfer cyswllt plant gyda phobl bwysig, gan gydbwyso anghenion pawb mewn cyfnod o ansicrwydd. Yn arbennig bu i Arolygiaeth Gofal Cymru, yn ystod ei ymweliad sicrwydd diweddar, gydnabod yn llawn pa mor dda oedd ymateb y Gwasanaeth i'r pandemig yn gyffredinol. Bydd y Gwasanaeth hefyd yn rhoi unrhyw newidiadau angenrheidiol i ymarfer ar waith yn ystod y misoedd nesaf i ymateb i'r agenda diwygio cyfraith gyhoeddus. Mewn perthynas â chysondeb mewn gweithiwr cymdeithasol, cydnabyddir hyn fel ffactor arwyddocaol yn nhaith plant a phobl ifanc trwy ofal gan ei fod yn allweddol i greu cysylltiadau sydd ag ymddiriedaeth wrth eu gwraidd. Yn ddiau, bydd y Gwasanaeth yn wynebu heriau wrth i weithwyr cymdeithasol a Swyddogion Adolygu Annibynnol adael, neu os ydynt yn absennol am gyfnodau oherwydd salwch neu absenoldeb mamolaeth. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Gwasanaeth yn ymdrechu i leihau trosglwyddiadau rhwng gweithwyr cymdeithasol cymaint ag y gellir; yn ddiweddar, mae'r gwasanaeth wedi penodi dau weithiwr cymdeithasol parhaol newydd a dau benodiad dros dro.

Nododd y Panel yr asesiad o gynnydd a ddarparwyd gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol, yn ogystal ag ymateb y Gwasanaeth i'r heriau a godwyd. Wrth drafod yr adroddiad cafodd y pwyntiau a ganlyn eu gwneud gan y Panel –

- Croesawodd y Panel adroddiad y Swyddogion Adolygu Annibynnol ac roedd o'r farn bod yr adroddiad wedi esblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf i ddarparu trosolwg cynhwysfawr ond cryno o ymarfer, gan gynnwys her a chefnogaeth fel y bo'n briodol, a'i fod o'r herwydd yn cyflawni swyddogaeth sicrwydd bwysig.
- Roedd gan y Panel beth pryder ynghylch trosiant staff, yn enwedig gan fod plant a phobl ifanc yn datgan bod parhad mewn gweithiwr cymdeithasol yn ffactor allweddol iddynt a bod newid gweithiwr cymdeithasol yn golygu bod rhaid iddynt ddweud eu straeon drosodd a throsodd. Cyfeiriwyd at ystadegau cenedlaethol sy'n dangos bod trosiant mewn gweithwyr cymdeithasol wedi gostwng a gofynnodd y Panel a welwyd y gostyngiad hwn yn lleol; a yw cyflwyno arferion gwaith mwy effeithlon o ganlyniad i'r pandemig, e.e. gwrandawiadau rhithwir, yn ffactor, gan olygu bod llai o amser yn cael ei dreulio'n disgwyl yn y llysoedd, a hefyd a yw gwersi'n cael eu dysgu o'r ffyrdd newydd o weithio er mwyn eu defnyddio yn yr hirdymor i helpu i gadw gweithwyr cymdeithasol profiadol.

  Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro - Diogelu bod trosiant staff y Gwasanaeth o fewn y targed corfforaethol. Mae cadw gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio yn y rheng flaen ym maes amddiffyn plant wedi bod yn her erioed i awdurdodau lleol oherwydd cymhlethdodau a phwysau'r maes hwn; mae'n faes hefyd lle mae gan y Gwasanaeth gyfran uchel o staff llai profiadol, a'r patrwm yw bod gweithwyr cymdeithasol, ar ôl iddynt ennill profiad ym maes amddiffyn plant, yn symud ymlaen i swyddi rheoli neu'n dod yn Swyddogion Adolygu Annibynnol. O ran

DRAFT

dysgu o'r pandemig, un o'r prif fanteision yw gwaith yn gysylltiedig â'r llysoedd. Cynhaliwyd gwrandawiadau llys yn rhithwir drwy gydol y pandemig gan arbed amser o ran disgwyl yn y llys a theithio yn ôl ac ymlaen i'r llys. Fodd bynnag, mae cwestiynau wedi codi ynghylch gwrandawiadau rhithwir ac mae Llywydd yr Adran Deulu wedi datgan, o ran sicrhau cyfiawnder, nad yw'n fuddiol i deuluoedd a rhieni yn arbennig beidio â bod yn bresennol yn gorfforol mewn llys. Felly, er y bydd gwrandawiadau llys terfynol gyda phresenoldeb wyneb yn wyneb yn dychwelyd, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch a ellir parhau i gynnal gwrandawiadau eraill yn rhithwir, megis gwrandawiadau cyfarwyddo sydd â phwrpas gweinyddol iddynt; byddai'r Gwasanaeth yn croesawu hyn a bydd sylwadau i'r perwyl hwnnw'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluoedd Lleol. *Nododd y Panel ei fod yn fodlon cefnogi cyflwyno sylwadau o'r fath ac yn cytuno fod gwrandawiadau llys rhithwir at ddibenion gweinyddol yn arwain at fanteision o ran effeithlonrwydd.*

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth – Ymyrraeth Ddwys at ailstrwythuro'r Gwasanaeth yn dilyn adroddiad arolygu AGC yn 2017 pan gyflwynwyd model tîm ymarfer, gyda phob tîm yn cael ei arwain gan Arweinydd Ymarfer. Mae'r Arweinwyr Ymarfer hynny sy'n gweithio yn y maes ymyrraeth ddwys wedi aros yn eu swyddi ac yn ystod y blynyddoedd a aeth heibio maent wedi ennill profiad ac ystod eang o sgiliau. Yn anochel, mae datblygiad proffesiynol staff yn arwain at fylchau ar y rheng flaen; fodd bynnag, penodwyd gweithwyr cymdeithasol yn ddiweddar a rhoddir cefnogaeth briodol os yw'r staff a benodwyd yn llai profiadol.

- Roedd gan y Panel gryn bryder am gynhyrchu adroddiadau a nododd bod cyflwyno adroddiadau'n brydlon yn ymddangos yn heriol i rai gweithwyr cymdeithasol yng nghyd-destun pwysau gwaith arall, a'r argraff a geir yw bod gweithwyr cymdeithasol yn "rhedeg ar ôl eu cynffonau eu hunain" yn yr ystyr eu bod yn gweithio'n galed iawn dim ond er mwyn sefyll yn yr unfan. Awgrymwyd y byddai'n briodol darparu mwy o gymorth a goruchwyliaeth, yn enwedig yn achos gweithwyr cymdeithasol llai profiadol, fel nad yw llunio adroddiadau'n ormod o faich.

  Pwysleisiodd y Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro – Diogelu fod darparu gofal bugeiliol a chefnogaeth i weithwyr cymdeithasol plant yn holl bwysig o ystyried natur heriol y gwaith a bydd rhagor o waith yn cael ei wneud ar yr agwedd hon fel rhan o'r strategaeth cadw staff.

- Mewn perthynas ag asesiadau plant sy'n derbyn gofal, gofynnodd y Panel am eglurhad ynghylch pryd y gobeithir y bydd y mewnbwn a'r cymorth ychwanegol ar gyfer yr elfen hon yn arwain at wella prydlondeb ac ansawdd asesiadau.

  Cymharodd y Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro – Diogelu y dasg o gadw asesiadau yn gyfredol i baentio Pont y *Forth*, hynny yw, erbyn iddynt gael eu cwblhau mae'n amser ailgychwyn eto gan eu bod yn dyddio mor gyflym. Yr allwedd yw creu mecanwaith lle mae asesiadau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan Arweinwyr Ymarfer; i'r perwyl hwnnw roedd yn awyddus i sefydlu meincnod ar gyfer lle mae'r Gwasanaeth wedi'i gyrraedd o ran asesiadau trwyddi draw ar gyfer yr holl blant yng ngofal yr Awdurdod, ac yna gosod targed ar gyfer eu diweddaru er mwyn iddynt gael eu hadolygu gan yr Arweinwyr Ymarfer. Mae rôl sicrhau ansawdd y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn hanfodol yn y cyswllt hwn o ran achosion ar lefel unigol ac ar y cyd.

Cytunwyd i gymeradwyo'r materion allweddol a ganlyn a oedd yn codi o'r adroddiad, fel y nodwyd gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol –

DRAFT

- **Bod y cynnydd yn nifer yr adroddiadau a gyflwynwyd cyn yr Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael ei groesawu'n fawr;**
- **Bod angen i ymdrechion i sicrhau fod gan bob plentyn sy'n derbyn gofal asesiad cyfredol barhau, a bod yr Arweinydd Ymarfer yn goruchwylio ansawdd yr asesiadau, a**
- **Gwahodd y Rheolwr Gwasanaeth (Uned Ddiogelu ac Ansawdd) i gyfarfod nesaf y Panel ym mis Rhagfyr 2021 i gyflwyno Cynllun Datblygu y Swyddogion Adolygu Annibynnol.**

5 GWASANAETH MAETHU CSYM – DATGANIAD O DDIBEN

Cyflwynwyd i'r Panel ei ystyried, adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth – Ymyrraeth Ddwys yn ymgorffori Datganiad o Ddiben Gwasanaeth Maethu Ynys Môn.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth - Ymyrraeth Ddwys bod y Datganiad o Ddiben, yn unol â gofynion Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018, yn darparu gwybodaeth am Wasanaeth Maethu Cyngor Sir Ynys Môn mewn perthynas â strwythur rheoli a staffio'r Gwasanaeth; ystod anghenion y plant y darperir y gwasanaeth ar eu cyfer, a sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu i ddiwallu anghenion plant a'u cynorthwyo i gyflawni eu canlyniadau personol. Bydd y Datganiad o Ddiben ar gael i Weinidogion Cymru, Arolygaeth Gofal Cymru, gofalwyr maeth cymeradwy a darpar ofalwyr maeth, unrhyw blentyn a leolir gan y gwasanaeth maethu, rheini'r plant hynny, personau sy'n gweithio at ddibenion gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol ac unrhyw berson arall ar gais. Yn ogystal â'r Datganiad o Ddiben, mae ystod o ddogfennau penodol a gweithdrefnol sy'n cefnogi'r nodau, amcanion, egwyddorion gwasanaeth a'r safonau a nodir ar gyfer y Gwasanaeth Maethu. Bydd y Datganiad o Ddiben yn cael ei ddiweddaru yn flynyddol, neu'n gynharach os bydd unrhyw newidiadau yn y gwasanaethau a ddarperir.

Wrth ystyried y Datganiad o Ddiben, gwnaed y pwyntiau a ganlyn gan y Panel –

- A yw'r amryfal ddeddfwriaeth a pholisïau allweddol sy'n llywodraethu gwaith y Gwasanaeth Maethu yn hwyluso neu'n amharu ar y gwaith o ddarparu'r gwasanaeth ac oes angen eu symleiddio.

  Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth – Ymyrraeth Ddwys bod y darnau allweddol o ddeddfwriaeth a pholisïau gyda'i gilydd yn cyfrannu at y safonau a'r disgwyliadau ar awdurdodau lleol fel asiantaethau Maethu. Mae maethu'n gyfrifoldeb statudol ac mae'n gyfrifoldeb pwysig i awdurdodau lleol ei gyflawni o ran sicrhau'r gofal gorau posib i blant y mae'n gofalu amdanynt ac i sicrhau hefyd fod y bobl gywir yn cael eu dewis i ddarparu gofal a ran yr Awdurdod. Mae'r Gwasanaeth wedi datblygu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a phenodwyd dau weithiwr cymdeithasol a gweithiwr cymorth yn ystod yr haf, a bydd y gweithiwr cymorth yn darparu cymorth i ofalwyr maeth sy'n ffrindiau neu deulu.

- A yw'r Datganiad o Ddiben yn ymgorffori yn ddigonol nodau ac amcanion y Gwasanaethau Maethu a sut mae'n bwriadu eu cyflawni.

  Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth – Ymyrraeth Ddwys fod Cyngor Sir Ynys Môn yn awdurdod arweiniol o ran y ddarpariaeth ar gyfer Gofalwyr Maeth yr Awdurdod, ac yn benodol o ran y pecyn buddion unigryw a ddatblygwyd ar gyfer gofalwyr maeth ym mis Ebrill 2019 i gydnabod eu rôl heriol. Mae'r pecyn wedi bod yn fodel enghreifftiol ar gyfer awdurdodau eraill ac mae nifer ohonynt wedi cyflwyno buddiannau tebyg erbyn hyn. Nid dogfen sefydlog yw'r Datganiad o Ddiben a bydd yn esblygu wrth i ffurfiau newydd o ddarpariaeth, cefnogaeth a chyfleoedd gael eu datblygu ar gyfer gofalwyr maeth. Mae'r Datganiad a gyflwynwyd yn bodloni gofynion rheoleiddiol ac mae'n darparu man cychwyn ar gyfer y sgwrs honno. Mae risg y byddai pwrpas y Datganiad, sef darparu

DRAFT

disgrifiad clir o'r gwasanaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill, yn mynd ar goll mewn dogfen sy'n rhy fanwl.

- Er mwyn sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael digon o gyfleoedd i symud ymlaen yn eu bywydau, a yw'r un uned a ddynodwyd yn Llawr y Dref i helpu pobl ifanc ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol yn ddigon i gwrdd â'r galw.

  Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth – Ymyrraeth Ddwys fod llawer o bobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod yn hapus i aros gyda'u gofalwyr maeth ar ôl iddynt droi'n 18 o dan gynllun "Pan Fydda i'n Barod" sy'n galluogi person ifanc dan 21 i aros gyda'u gofalwr maeth nes eu bod yn 21 oed. Mae'r trefniant hwn yn caniatáu i'r person ifanc aros mewn amgylchedd sefydlog hyd nes byddant yn 21 ac i baratoi i fyw'n annibynnol. Mae'r Awdurdod yn annog gofalwyr maeth i gadw mewn cysylltiad â'r bobl ifanc y bu iddynt eu mabwysiadu mewn rôl gefnogol dymor hir. Fodd bynnag, mae angen i'r Awdurdod edrych ar ffyrdd o gefnogi nifer cynyddol o ymadawyr gofal i symud i fyw'n annibynnol sydd yn ganlyniad uniongyrchol i'r nifer uchel o blant sydd wedi dod i ofal yn ystod y blynyddoedd diwethaf. I'r perwyl hwnnw, cryfhawyd rôl y tîm ôl-15 a phenodwyd gweithiwr cymdeithasol i weithio'n benodol gydag ymadawyr gofal, yn ogystal ag ymgynghorydd personol i helpu i lunio cynlluniau llwybr. Mae angen gwneud gwaith pellach ac mae'r berthynas â'r Gwasanaeth Tai yn allweddol o ran datblygu'r uned dai yn Llawr y dref ac mae hyn yn enghraifft o gydweithio effeithiol rhwng gwasanaethau i ddatblygu model sy'n gweithio'n llwyddiannus o ran darparu cyfle ac adnoddau i bobl ifanc sy'n gadael gofal ddatblygu sgiliau hanfodol.

- A yw awdurdodau eraill wedi atgynhyrchu'r datblygiadau a gafwyd yn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd ar Ynys Môn yn ystod y blynyddoedd diwethaf e.e. y cynnig arbennig i ofalwyr maeth trwy gyfrwng pecyn o fuddiannau ac a yw'r Awdurdod wedi cael cydnabyddiaeth am ei fentergarwch ac am arloesi gyda menter lwyddiannus.

  Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth – Ymyrraeth Ddwys pan gyflwynwyd y cynnig arbennig roedd Cyngor Ynys Môn yn cael ei edmygu am ei weledigaeth ac am fod â'r ewyllys gwleidyddol i roi'r weledigaeth ar waith; erbyn hyn mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i'r gostyngiad yn y Dreth Gyngor gael ei fabwysiadu fel model cenedlaethol ar gyfer ymadawyr gofal a byddai'n braf meddwl bod Ynys Môn wedi cael rhyw ddylanwad ar ffordd o feddwl Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth nad oedd yn ymwybodol bod Ynys Môn wedi derbyn unrhyw gydnabyddiaeth ffurfiol am y gwaith.

  Cadarnhaodd y Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, ei bod hi, yn rhinwedd ei swydd fel aelod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn gallu tynnu sylw at waith yr Awdurdod yn y sector llywodraeth leol a gyda'r Dirprwy Weinidog. Yn ogystal, rhoddwyd cyflwyniad ar gynlluniau Ynys Môn, gan gynnwys y rhai ar gyfer ei ofalwyr maeth, yn ogystal â chynlluniau eraill yn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd e.e. Cartrefi Clyd (tai grŵp bach), i Aelodau Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdodau Cymru.

  Cytunwyd –

- **Cymeradwyo'r Datganiad o Ddiben Maethu fel y'i cyflwynwyd.**
- **Bod cyflawniadau'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd o ran datblygu cynlluniau creadigol ar gyfer darparu gwasanaethau'n cael eu cynnwys yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol yr Awdurdod.**
- **Gofyn i Swyddogion ystyried ymhellach ffyrdd o dynnu sylw at gyflawniadau'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd.**

DRAFT

6 CYLCH GORCHWYL Y PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro – Diogelu adroddiad yn ymgorffori cylch gorchwyl arfaethedig y Panel Rhiant Corfforaethol a gofynnodd am farn y Panel ynghylch a oedd o'r farn bod y papur yn adlewyrchu ystod cyfrifoldebau'r Panel yn ddigonol.

Wrth ystyried y cylch gorchwyl, awgrymodd y Panel y newidiadau a ganlyn –

- Yn y datganiad agoriadol o dan 'Pwrpas y Panel Rhiant Corfforaethol', yn hytrach nag amlygu'r gofynion cyfreithiol, cyfeirio at nod y Cyngor fel y mae'n cael ei ddiffinio yn ei Gynllun Corfforaethol 2017-22, sef creu'r amodau i unigolion ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir.
- Ychwanegu at rôl yr Aelodau Lleol o dan bwynt 7 i adlewyrchu ysbryd yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn rhiant corfforaethol e.e. deisyfu'r gorau i blant a phobl ifanc y mae'r Awdurdod yn gofalu amdanynt, iddynt fod yn iach ac i wneud yn dda yn yr ysgol ac iddynt fod yn ddiogel ac yn hapus.
- Cynnwys cynrychiolydd Voices from Care Cymru ymysg aelodau'r Panel fel cyswllt rhwng y Panel a phlant sy'n derbyn gofal.
- Manylu ar gyfrifoldebau Aelodau Etholedig, Aelodau Portffolio a Sgriwtini a rôl y Pencampwr Plant sy'n Derbyn Gofal o dan Aelodaeth y Panel.
- Cyfeirio at y Cyfarwyddwr Addysg fel y Cyfarwyddwr Dysgu, Sgiliau a Phobl Ifanc a'r Gwasanaeth Addysg fel y Gwasanaeth Dysgu.
- Cyfeirio at gynrychiolydd yr Awdurdod Iechyd fel cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd Lleol.
- Ymysg cyfrifoldebau'r Panel, cynnwys llunio newyddlen ddwywaith y flwyddyn ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal sy'n cynnwys materion o ddiddordeb o gyfarfodydd y panel.

Cytunwyd –

- **Cymeradwyo cylch gorchwyl y Panel yn amodol ar ymgorffori'r newidiadau a awgrymwyd.**
- **Gofyn i'r Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro – Diogelu gylchredeg y cylch gorchwyl diwygiedig i'w gymeradwyo'n derfynol.**

7 CYFARFOD NESAF

Nodwyd y trefniadau i gynnal cyfarfod nesaf y Panel am 10:00am, dydd Mawrth 14 Rhagfyr 2021.

8 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 13 o Atodlen 12A o'r Ddeddf honno.

9 CYFLAWNIADAU ADDYSGOL PLANT A PHOBL IFANC SY'N DERBYN GOFAL GAN YR AWDURDOD

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Llesiant adroddiad llafar ar gyflawniadau addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod yng Nghyfnod Allweddol 4, a dywedodd wrth y Panel y byddai gwybodaeth fwy cynhwysfawr yn cael ei ddarparu i'r Panel yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr ar ôl i'r Cynlluniau Addysg Personol gael eu diweddaru. Amlygwyd y pwyntiau a ganlyn -

- O'r cohort o 10, roedd 60% yn llwyddiannus yn yr arholiadau yr oeddent wedi'u sefyll; roedd 80% yn mynd ymlaen i addysg bellach a/neu brentisiaethau tra nad oedd 20% wedi sefyll unrhyw arholiadau nac wedi gallu nodi lleoliad ôl-16.

DRAFT

- Bod rhai o'r cohort wedi perfformio'n arbennig o dda yn eu harholiadau TGAU.

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Llesiant ychydig o wybodaeth gefndirol am leoliad pob plentyn, eu hamgylchiadau personol a'u llesiant meddyliol gan eu bod yn ffactorau sy'n dylanwadu ar pa mor dda y maent yn cyflawni. Cadarnhaodd nad oedd dau unigolyn wedi llwyddo i ymgysylltu ag addysg mewn modd ystyrlon nac gyda'r Tîm Ymyrraeth chwaith.

Nododd y Panel y wybodaeth a gofynnodd a oedd y plant / pobl ifanc wedi perfformio'n unol â'r disgwyliadau; gofynnodd y Panel hefyd am wybodaeth am ddeilliannau CA2, CA3 ac ôl-16.

Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Llesiant fod y plant/pobl ifanc y cyfeiriwyd atynt wedi perfformio'n unol â'u targedau ac er bod blaenoriaethau eraill yn eu bywydau, mae'r Awdurdod yn fodlon â'r canlyniadau'n gyffredinol. Er bod nifer o bobl yn rhan o'r tîm cymorth sy'n ceisio gwneud y gorau ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hyn a'u cynorthwyo i gyflawni'r canlyniadau gorau posib, mae dau achos lle nad yw'r unigolion wedi gwneud cystal er gwaetha'r ymyrraeth a roddwyd, ac nid ydynt wedi nodi ffordd ymlaen. Mewn perthynas â thystiolaethu perfformiad yn erbyn targedau, mae'r Cynllun Datblygu Personol yn gallu cynhyrchu data i'r perwyl hwn.

Dywedodd y Panel y dylai'r Awdurdod longyfarch y plant a'r bobl ifanc hynny sydd wedi llwyddo yn ffurfiol drwy anfon cerdyn neu lythyr atynt. Cadarnhaodd y Swyddog Cyswllt Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal bod cerdyn yn dymuno'n dda iddynt wedi'i lofnodi ganddi hi a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu hanfon at blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ym mlynyddoedd 6 ac 11 ar ôl cyhoeddi canlyniadau arholiad.

Cytunwyd –

- **Nodi'r wybodaeth.**
- **Bod y Panel yn derbyn adroddiad canlyniadau addysgol mwy manwl yn ystod ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2021, yn cynnwys cyflawniadau CA2, CA3 ac ôl-16 ynghyd â dadansoddiad o berfformiad yn erbyn targedau.**

Mrs Annwen Morgan
Cadeirydd

DRAFT